

**COFNODION
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG ("ARAC") FESTIVAL
2022 LTD ("Unboxed")**

10.30 – 12.30pm, Dydd Llun 22 Tachwedd 2021
Badminton, Lefel 4, 6 Brindley Place, Birmingham, B1 2JB

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Liam Hannaway (LH) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Roger Lewis (RL) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival 2022 Ltd

Arsylwyr:

Greg Wilson (GW) Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Daniel Coles (DC) DCMS
Alison Breadon (AB) PWC
Adam Richards (AR) PWC
Sarah Tromans (ST) OC

Yn bresennol:

David Grady (DG) Prif Swyddog Ariannol
Caroline McGrory (CMcg) Prif Swyddog Cyfreithiol
Phil Batty (PB) Cyfarwyddwr Gweithredol
John Darnbrook (JD) Pennaeth Integreiddio Busnes
Richard Pomfret (RP) Uwch Reolwr Cyllid
Lucy Bailey (LB) Uwch Gwnsler Cyfreithiol
Sarab Hair (SH) Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau:

Amali de Alwis (AA) Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival 2022 Ltd

RHIF	EITEM	PERCHEN NOG Y WEITHRED
1	<p>Cymeradwyo Cofnodion a Materion sy'n Codi</p> <p>Cymeradwyodd yr ARAC gofnodion cyfarfod yr ARAC diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021.</p> <p>Cododd FT faterion sy'n codi fel a ganlyn:</p> <p>Cam Gweithredu 1 - Parhau i fonitro cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig/Cyrff Cyflawni Strategol i roi sicrwydd ar fonitro ariannol ar draws rhaglenni.</p> <p>Diweddarodd PB y Pwyllgor fod fforymau llywodraethu presennol rhwng y gwledydd datganoledig sy'n ein galluogi i greu adroddiadau rheolaidd ar gyfer ARAC. Cam gweithredu wedi'i gau.</p> <p>Cam Gweithredu 2 - Traciwr argymhellion archwilio i ddod i bob cyfarfod a'i ychwanegu at y cyfarfod rheolaethau mewnol. Cam gweithredu wedi'i gau, prif bwynt agenda ARAC parhaus.</p> <p>Cam Gweithredu 3 - Polisi Recriwtio i'w ddsbarthu i'w gymeradwyo. Cam gweithredu wedi'i gau.</p> <p>Cam Gweithredu 4 - Nodwyd risg newydd o ran logisteg gan gynnwys prynu nwyddau a'r amgylchedd macro newidiol gan gynnwys cadwyn gyflenwi, technolegol a chynhyrchu, nwyddau</p>	

	<p>(fel pren, sglodion technoleg a'r farchnad lafur) i'w hadlewyrchu yn y drafodaeth risg nesaf. Cam gweithredu wedi'i gau.</p> <p>Cam Gweithredu 5 - Cytunwyd i adolygu'r egwyddorion covid gan ystyried y gofyniad ar gyfer pob un o'r gwledydd yn barhaus. Statws: Parhaus.</p> <p>Cam Gweithredu 6 – Papur i'w ddarparu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Safonau Technoleg sydd ar waith ar draws y 10 comisiwn yn y flwyddyn newydd. Statws: Ar waith.</p> <p>Cam Gweithredu 7 - AA i gyfarfod ag Andy Peacock i roi sicrwydd ar yr amgylchedd seiberddiogelwch. Statws: Ar waith.</p>	
<p>2</p>	<p>Y Diweddaraf am y Weithrediaeth</p> <p>Darparodd PB y diweddariad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae naw o'r deg cytundeb comisiynu yn cael eu gweithredu'n llawn. • Mae cyfarfodydd rheoli contractau misol yn mynd rhagddynt yn dda. Mae gwybodaeth adrodd o ansawdd uchel yn cael ei derbyn, a heriau a risgiau'n cael eu hadolygu'n agored. • Mae LB a PB yn paratoi cyfres o dempledi cyfreithiol a fydd yn ddefnyddiol yn ystod oes y prosiect ar gyfer y sefydliadau a gomisiynwyd. • Mae MG wedi cwblhau pob un o'r chwe adolygiad datblygu creadigol wythnosol. Cafwyd trafodaethau da ynghylch dulliau digidol ac mae adolygiad allanol o asedau digidol yn cael ei gwblhau. • Cynhaliwyd digwyddiad ym Manceinion a fynychwyd gan bob un o'r deg comisiwn a chynrychiolwyr cydweithwyr UNBOXED. Bwriedir cynnal gweithdai pellach yn Birmingham ym mis Ionawr gyda thraean wedi'u cynllunio ar gyfer y digwyddiad cyntaf yn Paisley. • Bydd cyfarfodydd rheoli chwarterol gyda'r sefydliadau a gomisiynwyd yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr. • Penodwyd Rheolwr Llywodraethu, Laura O'Flynn, a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o gydlyn trefniadau llywodraethu. • Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Grŵp Adolygu Adnoddau Dynol a'r gweithlu a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd. • Cafwyd trafodaeth ynghylch chwyddiant yn cynyddu drwy 2022 gan gynnwys mesurau wrth gefn i fynd i'r afael â hyn. Trafodwyd tair her wahanol ar draws y timau o ran cynhyrchu, llafur a chost deunyddiau. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar yr heriau hyn. 	
<p>3</p>	<p>Archwiliad Mewnol</p> <p>Gwnaeth AR grynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar weithgareddau Archwilio Mewnol a gynhaliwyd ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Medi.</p> <p>Y gweithgarwch presennol sydd ar y gweill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytundebau comisiynu llawn • Rheoli'r portffolio prosiectau • Rheoli capasiti ac adnoddau • Rheolaethau allweddol y Gwasanaethau Corfforaethol <p>Mae dau adolygiad yn eu cyfnod cynllunio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni integredig y pedair gwlad • Golwg fanwl ar y prosiectau. 	

	<p>Gofynnodd FT am ystyriaeth o sicrwydd mewnol archwilio annibynnol ynghylch gwerthuso a gweithgareddau etifeddol a cytunodd PB y byddant yn cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor gan Priya Lakhani.</p> <p>Adroddwyd bod saith cam rheoli ar agor yng nghyfarfod ARAC ym mis Medi, ac ers hynny nid oes unrhyw gamau newydd wedi'u hychwanegu. Mae chwech o'r saith cam hynny bellach wedi'u cwblhau.</p> <p>Fel rhan o adrodd parhaus, mae PwC yn darparu cyngor treth mewn perthynas â'r Prosiect, a chyngor mewn perthynas â ffurflen dreth gorfforaeth flynyddol a diddymiad y cwmni.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	PB/AR
4	<p>Y Diweddaraaf am Berfformiad Ariannol</p> <p>Rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol y wybodaeth ddiweddaraaf i'r Pwyllgor am y perfformiad ariannol yn erbyn y flwyddyn gyfredol a'r gyllideb gydol oes.</p> <p>Gofynnodd FT am adroddiad rhagolwg o'r flwyddyn hyd yn hyn i'w gyflwyno i'r ARAC nesaf ar gyfer y comisiynau.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	RP
5.	<p>Cyllideb Oes</p> <p>Rhoddodd RP y wybodaeth ddiweddaraaf i'r Pwyllgor am y Gyllideb Gydol Oes ar gyfer Unboxed, ar ôl cwblhau'r Cytundebau Comisiynu Llawn a'r cyllid tynnu i lawr wrth gefn a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Trafododd RP sut y mae'r papur a ddisbarthwyd i'r Pwyllgor yn amlinellu cyfanswm y gwariant sydd i'w ysgwyddo gan Unboxed yn ystod cylch oes llawn y rhaglen fel y'i hariennir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys gwariant wedi'i wrthbwyso yn erbyn ad-daliadau ac incwm.</p> <p>PB i gysylltu â chynrychiolwyr Gogledd Iwerddon i gadarnhau cyllid gan yr Adran Cymunedau.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	PB
6.	<p>Trosolwg Risg Strategol</p> <p>Darparodd JD y diweddariad canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd dau risg goch gyfredol • Awgrymodd RL y dylid cyfuno risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ac effaith prosiectau. JD i'w ystyried mewn tirwedd risgiau wedi'i ddiweddarau • Mae dwy risg goch flaenorol bellach wedi'u hisraddio i oren. • Nodwyd 11 o risgiau newydd a thair risg goch newydd yn y papurau. <p>Codwyd cwestiwn ynghylch sut y byddai'r comisiynau'n gweithredu ar y risg o ran Covid. Diweddarodd PB y Pwyllgor bod gan UNBOXED gynllun rheoli gweithredol ar waith a fydd yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus</p> <p>JD i roi mwy o eglurder ar Risg 84 o ran yr hyn yr ydym yn ei olrhain yn benodol gan gynnwys angen cynllun cynulleidfya cadarn.</p> <p>Adroddiad Portffolio</p> <p>Rhoddodd JD grynodedb gweithredol o'r adroddiad portffolio gan gynnwys statws Coch Oren</p>	<p>JD</p> <p>JD</p>

	<p>Gwyrdd ar bob un o'r 10 comisiwn o fis Medi i fis Hydref. Mae'r rhan fwyaf o'r comisiynau wedi gweld gwelliant yn eu sgôr wrth iddynt symud tuag at gyflawni.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch defnyddioldeb safle Coch Oren Gwyrdd a ragwelir ar gyfer pob un o'r comisiynau. JD ac AR i gytuno a oes angen gweithredu hyn fel rhan o Adolygiad Archwilio Mewnol yr Adroddiad Portffolio.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur.</p>	JD/AR
7.	Unrhyw fusnes arall Dim	